# Ffurflen Cynnig Achlysur

Grŵp Ymgynghori ynghylch Diogelwch Achlysuron, Rhondda Cynon Taf (GYDA)

RHONDDA CYNON TAF

Y bwriad o ran y ddogfen yma yw eich galluogi chi, a chithau'n drefnydd ar yr achlysur dan sylw, i gyflwyno'r wybodaeth ofynnol er mwyn gwneud cais i gynnal achlysur ar dir Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf (gan gynnwys priffyrdd), a/neu, i roi'r wybodaeth gychwynnol i Grŵp Ymgynghori ynghylch Diogelwch Achlysuron Rhondda Cynon Taf (GYDA) ynghylch eich achlysur. Dyw cyflwyno'r ffurflen yma ddim yn gadarnhad bod yr achlysur wedi'i drefnu, nac ychwaith yn rhoi cytundeb bod gyda chi'r hawl i ddefnyddio tir y Cyngor. Bydd y penderfyniad ffurfiol yn ymwneud â'ch cais trefnu neu gytundeb i ddefnyddio tir y Cyngor yn cael ei rannu wedi i'r mater gael ei drafod yn llawn gan y Cyngor a/neu'r GYDA.

Mae'r GYDA yn rhoi cymorth a chyngor i drefnwyr achlysuron. Mae ei aelodau'n helpu i ofalu bod achlysur yn ddiogel ac yn gyfreithiol ar gyfer unrhyw un sy'n ymweld ag e.

Bydd yr aelodau'n trafod rhestr o ystyriaethau, yn eu plith:

- nifer y bobl fydd yn bresennol yn yr achlysur;
- yr effaith ar y gymuned leol, er enghraifft yn sgil amharu sylweddol o ran sŵn neu draffig;
- lefel y risg yn gysylltiedig â'r achlysur, gallai hyn fod ar sail hanes blaenorol yr achlysur neu natur yr achlysur;
- achlysuron o natur anarferol;
- gofynion cyfreithiol er enghraifft trwyddedau neu gau ffyrdd.

Mae achlysur yn weithgaredd sy'n digwydd ar amser penodol sy'n galluogi pobl i ddod ynghyd. Efallai y byddan nhw'n dod ynghyd i ddathlu, i rannu eu hoffter o gerddoriaeth, chwaraeon, heriau, codi arian cymunedol, neu'n syml ar gyfer adloniant fel cyngerdd. Gallai hyn gynnwys, er enghraifft, gŵyl, ffair, cyngherddau awyr agored ac achlysuron cerddoriaeth, sioeau masnach, achlysuron chwaraeon, sioeau ceffylau, sioeau amaethyddol, sioeau cŵn, adloniant awyr agored fel theatr, opera neu ail-greu hanesyddol, arddangosfeydd tân gwyllt, partïon cwmni ar raddfa fawr, gorymdeithiau, ymdeithiau a charnifalau, partïon stryd ac achlysuron crefyddol.

Gall achlysur fod yn un rhad ac am ddim, neu'n un y bydd gofyn prynu tocyn ar ei gyfer, yn un y bydd gofyn talu ffi ger y fynedfa ar ei gyfer, neu'n un lle bydd gofyn talu am weithgareddau. Gallai fod ar agor i'r cyhoedd neu'n achlysur trwy wahoddiad yn unig; mae hyn yn dibynnu ar ystod enfawr o ffactorau ond yn bennaf, mae'n dibynnu ar yr amcanion o ran yr achlysur. Er enghraifft, gallai’r amcanion fod yn ymwneud â gwneud arian neu gallen nhw fod yn ymwneud ag amcanion cymdeithasol neu gymunedol y sawl sy'n cynnal yr achlysur.

Beth bynnag fo graddfa eich achlysur, er mwyn ei gynnal yn llwyddiannus, mae gofyn ystyried pob agwedd arno cyn y diwrnod ei hun.

Drwy lenwi'r ddogfen yma, byddwch chi'n rhoi atebion i gwestiynau'n ymwneud ag amryw agwedd ar gynnal eich achlysur, ac o wneud hynny, fe fyddwch chi'n cyflwyno'r wybodaeth angenrheidiol fel bod modd cynnal asesiad cychwynnol ynghylch trefniadau'r achlysur, a bydd yn gyfle i'r GYDA roi cyngor ac arweiniad i chi, pryd bynnag fo hynny'n angenrheidiol. Hefyd, efallai y bydd sefyllfaoedd lle bydd

gofyn cael rhagor o fesurau a/neu wybodaeth; bydd y rhain yn cael eu hesbonio i chi ar yr adeg y byddwch chi'n gwneud y cais; er enghraifft Asesiad Risg o ran COVID.

**Fydd y ffurflen yma ddim yn cymryd lle unrhyw ddogfennau statudol eraill y bydd gofyn i chi, o bosib, eu llenwi, yn ymwneud â materion fel trwyddedau neu gau ffyrdd.**

Mae ystod o agweddau yn cael sylw yn y ffurflen, mae hi wedi'i dylunio felly, ac efallai na fydd rhai o'r rhain yn berthnasol i'ch achlysur chi. Cwblhewch bob rhan o'r ffurflen lle bo'n berthnasol gan roi cymaint o wybodaeth ag y gallwch ynghylch yr achlysur; rhowch dd/b (sef ddim yn berthnasol) ger y rhai nad ydyn nhw'n berthnasol i'ch achlysur chi.

Dylai trefnydd yr achlysur lenwi'r ffurflen yma a'i chyflwyno i Adran Parciau'r Cyngor, yma: GrwpCynghoriAchlysuronRhCT@rctcbc.gov.uk / Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf, Parciau a Chefn Gwlad, Canolfan Chwaraeon Abercynon, Parc Abercynon, Abercynon, CF45 4UY (mae hyn yn cynnwys ar gyfer hysbysu ynghylch achlysuron nad ydyn nhw'n digwydd ar dir y Cyngor); bydd yr wybodaeth sy'n cael ei chyflwyno yn cael ei hanfon ymlaen at aelodau o'r GYDA er mwyn iddyn nhw ei thrafod.

Yn y tabl isod, fe welwch sawl diwrnod cyn yr achlysur mae gofyn cyflwyno'r wybodaeth; does dim modd newid y rhan fwyaf o'r rhain (er enghraifft trwyddedu neu briffyrdd), ond efallai y bydd modd cyflwyno yn nes at amser yr achlysur os bydd hynny'n cael ei gytuno arno, ar gyfer achlysuron llai eu maint.

| GOFYNION O RAN GWAITH PAPUR | SAWL DIWRNOD YMLAEN LLAW FYDDAI ORAU | RHAID CYFLWYNO Y NIFER YMA O DDIWRNODAU YMLAEN LLAW |
|---|---|---|
| Yr Heddlu | 180 diwrnod | 56 diwrnod |
| Tân | 56 diwrnod | Diwrnod yr achlysur |
| Iechyd | 90 diwrnod | 30 diwrnod |
| Trwyddedu<br><br>(Hysbysiad ynghylch Digwyddiad Dros Dro) | 180 diwrnod | 56 diwrnod<br>10 Diwrnod Gwaith Llawn (heb gynnwys y diwrnod cyflwyno, diwrnod yr achlysur, gŵyl y banc na phenwythnosau) |
| Priffyrdd | 90 diwrnod | 56 diwrnod |
| Bwyd | 28 diwrnod | 14 diwrnod |
| Sŵn | 60 diwrnod | 14 diwrnod |
| Trydanol | 30 diwrnod | 7 diwrnod |
| Strwythurol | 60 diwrnod | 21 diwrnod |
| Iechyd yr Amgylchedd | 28 diwrnod | 14 diwrnod |

Bydd gwybodaeth yn ymwneud â'ch achlysur yn cael ei rhannu â Gwasanaethau eraill yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf, fel Adran Iechyd yr

Amgylchedd, Yr Adran Briffyrdd, Yr Adran Trwyddedu a'r Adran Rheoli Adeiladau, a gyda phartneriaid perthnasol eraill fel y gwasanaethau brys y bydd gofyn iddyn nhw, efallai, fod yn rhan o'ch achlysur neu y bydd arnyn nhw angen, efallai, rhagor o wybodaeth.

Byddwch chi'n cael ymateb swyddogol gan y GYDA o fewn 28 niwrnod wedi i'r ffurflen yma ei gyrraedd; os bydd eich achlysur yn cael ei gymeradwyo efallai y bydd gofyn i chi gyflwyno cynllun rheoli manylach ar gyfer eich achlysur, felly hefyd o ran asesiad risg; efallai hefyd y bydd staff y GYDA yn gofyn am gyfarfod â chi i gael rhagor o wybodaeth ynghylch eich achlysur.

Gallwch gael rhagor o wybodaeth drwy gysylltu â'r Grŵp Ymgynghori ynghylch Diogelwch Achlysuron GrwpCynghoriDiogelwchAchlysuronRhCT@rctcbc.gov.uk

Unwaith y bydd eich cais wedi dod i law, ynghyd â'r dogfennau ategol, bydd aelodau o'r GYDA yn trafod eich cais; cewch wybod mewn llythyr neu e-bost gan GYDA ynghylch canlyniad eich cais. Os na fydd pob dogfen angenrheidiol yn cael ei chyflwyno o leiaf 6 wythnos cyn yr achlysur (gall fod yn gyfnod byrrach o gytuno ar hynny, ar gyfer achlysuron llai eu maint), neu os na fydd yn cyd-fynd â phob gofyniad ar gyfer cynnal achlysur yn asedau Rhondda Cynon Taf neu arnyn nhw, fel parciau, adeiladu, canol tref, priffyrdd act ati (dyw'r rhestr yma ddim yn gynhwysfawr), yna fydd y cais ddim yn cael ei ystyried.

**Mae'r rhannau o'r ffurflen yma sydd mewn COCH er gwybodaeth yn unig, i fod yn gymorth i chi lenwi rhannau, a dylen nhw gael eu dileu o'r fersiwn derfynol. Os yw unrhyw rai o blith eich atebion yn rhai dd/b (ddim yn berthnasol), dylech chi gynnwys esboniad i ategu'r penderfyniad.**

**Cyfeiriadau E-bost Defnyddiol**

| | |
|---|---|
| Y Grŵp Ymgynghori ynghylch Diogelwch Achlysuron (GYDA) | GrwpCynghoriDiogelwchAchlysuronRhCT@rctcbc.gov.uk |
| Trwyddedu | Adran.Trwyddedau@rctcbc.gov.uk |
| Parciau a Chefn Gwlad | Parciaucefngwlad@rctcbc.gov.uk |
| Bwyd, Iechyd a Diogelwch | Bwyd.IechydaDiogelwch@rctcbc.gov.uk |
| Cynllunio ar gyfer Argyfyngau | Cynllunioargyferargyfyngau@rctcbc.gov.uk |
| Traffig | gwasanaethautraffig@rctcbc.gov.uk |
| Safonau Masnach | safonaumasnach@rctcbc.gov.uk |
| Arwyddion ar y Priffyrdd | GorfodiGofalyStrydoedd@rctcbc.gov.uk |

# Siart Llif y Cais

Cyflwyno Ffurflen Gais wedi'i chwblhau ynghylch yr Achlysur: GrwpCynghoriDiogelwchAchlysuronRhCT@rctcbc.gov.uk

↓

GYDA yn Anfon E-bost at yr Ymgeisydd yn Cydnabod Derbyn y Ffurflen

↓

Y Cynnig yn cael ei Rannu gydag Aelodau GYDA

↓

Ymateb yn cael ei roi gan GYDA o fewn 28 niwrnod i'r cynnig gael ei Gyflwyno iddo. Yn rhan o'r ymateb bydd –

- Ymholiadau ynghylch yr wybodaeth sydd wedi'i chyflwyno;
- Gofyniad am wybodaeth ychwanegol fel cynllun yr achlysur, yswiriant, asesiad risg;
- Gofyniad am wybodaeth ychwanegol a gofyniad i chi ddod i gyfarfod GYDA
- Cadarnhad nad oes gyda GYDA fater i'w godi (nodwch ar gyfer materion ynghylch tir y Cyngor, dyw hyn ddim yn gadarnhad o gytundeb i ddefnyddio'r tir; bydd hyn yn cael ei drafod ar wahân);

↓

Unwaith y bydd Pob Dogfen wedi dod i law a'i bod yn dderbyniol i Aelodau'r GYDA, bydd yr ymgeisydd yn cael gwybod mewn llythyr/e-bost. Os na fydd pob dogfen yn dod i law o leiaf 6 wythnos cyn yr achlysur (gall fod yn gyfnod byrrach o gytuno ar hynny, ar gyfer achlysuron llai eu maint), neu os na fydd pob un yn ateb y gofynion, mae'n bosib na fydd yr achlysur yn cael ei gymeradwyo, neu y bydd y caniatâd cychwynnol i ddefnyddio tir y Cyngor yn cael ei dynnu nôl. Bwriwch olwg ar y tabl ar Dudalen 3 i weld y dyddiadau pwysig ar gyfer cyflwyno gwybodaeth i Aelodau'r GYDA.

Mae'n bwysig, unwaith y bydd yr wybodaeth sydd wedi dod i law yn cael ei derbyn yn wybodaeth dderbyniol, cadw at hynny; rhaid i unrhyw newidiadau i'r achlysur gael eu trafod â'r GYDA.

# Ffurflen Cynnig Achlysur

| TREFNYDD YR ACHLYSUR | |
|---|---|
| Sefydliad: | |
| Enw: | |
| Rhif(au) Ffôn: | |
| Cyfeiriadau E-bost: | |
| Cyfeiriad Post: | |
| Profiad Blaenorol o ran yr Achlysur | Rhowch enghreifftiau o unrhyw achlysuron mae gyda chi brofiad o fod wedi'u trefnu yn ystod y 3 mlynedd diwethaf |

| SWYDDOG IECHYD A DIOGELWCH / Y SWYDDOG SY'N GYFRIFOL | |
|---|---|
| Enw neu Sefydliad: | |
| Enw: | |
| Rhif ffôn: | |
| Cyfeiriad E-bost: | |
| Profiad / Cymwysterau perthnasol yn y maes rheoli achlysuron | |

| Manylion ynghylch yr achlysur | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Enw'r achlysur sy'n cael ei gynnig | | | | |
| Lleoliad yr achlysur sy'n cael ei gynnig | | | | |
| Oes gyda chi ganiatâd i ddefnyddio'r safle / tir dan sylw? | | | | |
| Dyddiadau'r achlysur sy'n cael ei gynnig | | | | |
| Amseroedd yr achlysur sy'n cael ei gynnig | Dechrau | : | Gorffen | : |
| Dyddiad/Amser – Gosod pethau cyn yr achlysur | Dechrau | : | Gorffen | : |
| Dyddiad / Amser – Tynnu pethau i lawr wedi'r achlysur | Dechrau | : | Gorffen | : |
| Amcangyfrif o Gyfanswm Nifer y Bobl fydd yn bresennol bob dydd, ac Amcangyfrif o'r Cyfrif Brig bob diwrnod (Gan gynnwys staff, darparwyr a pherfformwyr) | | | | |
| Proffil y Gynulleidfa (Er enghraifft, Plant a Theuluoedd, Oedolion gan fwyaf, Arddegwyr) | | | | |
| A fydd gofyn gael tocynnau ar gyfer yr achlysur yma? | Bydd | | Na fydd | |
| A yw'r achlysur yma wedi digwydd o'r blaen? | Do | | Naddo | |
| Os do, ym mhle a phryd y cafodd yr achlysur yma ei gynnal o'r blaen? | | | | |
| A yw'n<br>(Ticiwch un blwch yn unig) | ☐ Achlysur Elusen gofrestredig<br>☐ Achlysur Elusen anghofrestredig<br>☐ Achlysur masnachol<br>☐ Achlysur nid er elw | | | |
| Achlysur ar gyfer elusen – Enw a rhif cofrestru'r elusen | | | | |
| A fydd personél y lluoedd arfog mewn gwisg yn rhan o'r achlysur (gan gynnwys cadetiaid), yn drefnwyr, yn ymwelwyr, neu'n cymryd rhan? | Byddan ☐ Na Fyddan ☐<br>Manylion | | | |

| TROSOLWG O'R ACHLYSUR | | |
| --- | --- | --- |
| Crynodeb byr (paragraff neu ddau) ynghylch yr hyn fydd yn digwydd yn ystod eich achlysur. Yn rhan o'r crynodeb dylech gynnwys disgrifiad byr o'r gweithgareddau fydd yn cael eu cynnig yn ystod yr achlysur, y rheswm dros yr achlysur, dyddiadau/amseroedd yr achlysur a phwy fydd y bobl fydd yn bresennol yn yr achlysur (oedrannau, ac ati.). Yw'r achlysur yn un â thâl mynediad? | | |
| **Ydych chi'n bwriadu defnyddio unrhyw un o blith yr atyniadau canlynol, neu eu caniatáu, yn yr achlysur? Os felly, ticiwch bob bocs priodol ar y dde.**<br><br>Nodwch: Wedi i'r cais yma gael ei gyflwyno, fydd dim modd cynnwys unrhyw eitemau ychwanegol, heb gael caniatâd uniongyrchol mewn ysgrifen gan y Cyngor. Nodwch nad yw gollwng balŵns ar dir Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf yn cael ei ganiatáu. | ☐ **Offer Ffair**<br>☐ **Awyren / Hofrennydd**<br>☐ **Parasiwtyddion**<br>☐ **Gollwng Lanterni Balŵns**<br>☐ **Balŵns aer poeth**<br>☐ **Ceffylau / Mulod + anifeiliaid eraill**<br>☐ **Beiciau modur**<br>☐ **Moduron**<br>☐ **Taflu Cnau Cocos**<br>☐ **Castell Neidio (neu debyg)**<br>☐ **Llwyfan symudol**<br>☐ **System Sain P.A**<br>☐ **Grŵp ail-adrodd hanes**<br>☐ **Tân gwyllt / Laser**<br>☐ **Gorymdaith Garnifal**<br>☐ **Cerddoriaeth ag Uchelseinyddion**<br>☐ **Storio Nwyon**<br><br>**Arall (nodwch):-** | ☐ **Man ar gyfer plant sydd ar goll**<br>☐ **Rhwystrau / Ffensys**<br>☐ **Pabell Fawr/ Gasebo**<br>☐ **Generadur symudol**<br>☐ **Ffynhonnell ar gyfer trydan**<br>☐ **Toiledau**<br>☐ **Alcohol**<br>☐ **Bwyd / diod**<br>☐ **Teithiau trên**<br>☐ **Perfformio drama eu ddawns**<br>☐ **Barbeciw**<br>☐ **Stondinau marchnad**<br>☐ **Dangos ffilm**<br>☐ **Cerddoriaeth fyw / wedi'i recordio**<br>☐ **Bandiau sy'n Martsio**<br>☐ **Coelcerth** |
| **CYNLLUN O'R SAFLE:**<br><br>*Cyflwynwch gopi o'r Cynllun o'r Safle sy'n cael ei Gynnig ar gyfer eich achlysur.* | | |

| Casgliadau ar gyfer Trwyddedu / Elusen | |
|---|---|
| A fydd gofyn cael trwydded ar gyfer eich achlysur?<br><br>Bydd y ddolen isod yn eich tywys at wefan Drwyddedau'r Cyngor:<br><br>[www.rctcbc.gov.uk/Trwyddedau](http://www.rctcbc.gov.uk/Trwyddedau) | Bydd gofyn cael trwydded ar gyfer rhai Gweithgareddau fel:<br>• Gwerthu alcohol<br>• Cerddoriaeth fyw<br>• Cerddoriaeth wedi'i recordio<br>• Casglu arian mewn bwcedi<br>• Dyw'r rhestr yma ddim yn gynhwysfawr ac fe ddylech chi ofyn am gyngor gan adran drwyddedu Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf (URL).<br><br>(Ystyriwch ddiogelwch casglwyr ac arian, dylai arian sy'n cael ei gasglu fod mewn bwcedi dan sêl a ddylai plant ddim ymgymryd â'r dasg yma) |
| Os yw'ch ateb yn un **cadarnhaol** rhowch fanylion ynghylch unrhyw drwydded/au rydych chi wedi gwneud cais amdano/amdanyn nhw ar gyfer yr achlysur yma: | |
| | |

| Cerddoriaeth Fyw / Wedi'i Recordio | |
|---|---|
| A fydd unrhyw gerddoriaeth fyw / wedi'i recordio yn rhan o'ch achlysur? | |
| Os yw'ch ateb yn un **cadarnhaol** rhowch fanylion ynghylch y math o gerddoriaeth fydd yn cael ei chwarae, y mesurau fydd ar waith ar gyfer rheoli sŵn yn yr achlysur, gan gynnwys manylion yr ymgynghorydd sŵn fydd yn cael ei gyflogi ar gyfer yr achlysur | |
| | |

| Golau Artiffisial | |
|---|---|
| A fydd golau artiffisial yn cael ei ddefnyddio yn ystod eich achlysur? | |
| Os yw'ch ateb yn un **cadarnhaol** rhowch fanylion ynghylch y goleuo | |
| | |

| Alcohol | |
|---|---|
| A fydd alcohol yn cael ei weini yn yr achlysur yma? | Bydd☐ Na fydd☐<br>Manylion: |
| A yw'r drwydded angenrheidiol ar waith ar gyfer yr achlysur yma, o ran gweini alcohol? | Ydy☐ Nac ydy ☐<br><br>Manylion: |
| Pa drefniadau sydd wedi'u gwneud i fynd i'r afael ag yfed dan oed? | Manylion: |
| Pwy fydd yn darparu'r bar? | Manylion: |

| Bwyd | |
|---|---|
| A fydd bwyd ar gael / yn cael ei werthu yn eich achlysur? | Bydd☐ Na fydd☐ |
| Ar gyfer pob darparwr bwyd, bydd gofyn i ni gael: | Enw'r cwmni bwyd:<br>Y math o fwyd fydd yn cael ei weini:<br>Awdurdod cofrestredig:<br>Sgôr hylendid bwyd:<br>Manylion cyswllt:<br>Polisïau yswiriant |

| Hawliau Eiddo Deallusol | |
|---|---|
| A fydd nwyddau'n cael eu gwerthu yn yr achlysur yma? | Byddan☐ Na fyddan☐<br><br>Manylion ynghylch yr hyn fydd yn cael ei gynnig a gan bwy: |
| A fydd cymeriadau sy'n fasgotiaid yn cael eu defnyddio yn yr achlysur yma? | Byddan☐ Na fyddan☐<br><br>Manylion ynghylch yr hyn fydd yn cael ei gynnig a gan bwy: |

| Effeithiau arbennig – tân gwyllt / coelcerthi | |
|---|---|
| Ydych chi'n bwriadu defnyddio effeithiau arbennig (laserau ac ati) neu dân gwyllt yn ystod eich achlysur | Ydyn ☐ Nac ydyn ☐<br><br>Manylion: |
| Ydych chi'n bwriadu cael coelcerth yn eich achlysur? | Ydyn ☐ Nac ydyn ☐<br><br>Manylion: |

| Cau ffyrdd / rheoli traffig | | |
|---|---|---|
| Ydych chi'n rhagweld y bydd gofyn: | Cau Ffyrdd | Dargyfeirio traffig |
| | Cael cyfyngiadau parcio ar strydoedd | Cau meysydd parcio |
| Os roddoch chi ateb cadarnhaol ar gyfer un o blith yr uchod, cyflwynwch y manylion llawn ynghylch y lleoliadau, dyddiadau ac amseroedd dan sylw.<br><br>Ydych chi'n cynnig cau unrhyw ffyrdd neu wneud unrhyw newidiadau i'r modd y bydd traffig yn gallu defnyddio'r priffyrdd? Bydd gofyn i chi roi o leiaf 8 wythnos o rybudd, a po hwyaf y rhybudd, y gorau, gan y gall llwyth gwaith gael effaith o ran rhoi hyn ar waith. Dylech anfon ceisiadau drwy wefan y Cyngor.<br><br>A fydd unrhyw rwystrau neu fesurau o ran moduron yn cael eu rhoi ar waith? (os felly rhowch y manylion) | | |

| Cymorth Cyntaf | |
|---|---|
| Rhestrwch yr hyn fydd ar waith o ran sicrwydd ynghylch cymorth cyntaf a meddygol yn eich achlysur; gan gynnwys y sawl fydd yn ei ddarparu, yr hyn fydd yn cael ei ddarparu a'r **manylion cyswllt ar gyfer diwrnod yr achlysur**. Ar gyfer achlysuron mwy eu maint, 1000 a rhagor, dylai asesiad risg meddygol fod yn rhan o hyn ac ynddo esboniad ynghylch cefndir y sicrwydd dan sylw. Ar gyfer achlysuron llai eu maint, byddai gofyn tynnu sylw at unrhyw risgiau rydych yn effro iddyn nhw. | Darparwr:<br><br>Yr hyn sy'n cael ei ddarparu:<br><br>Manylion Cyswllt ar gyfer yr Achlysur: |

| Ymddiriedolaeth Brifysgol GIG Gwasanaeth Ambiwlans Cymru (YGAC) |
|---|
| Hefyd, mae Ymddiriedolaeth Brifysgol GIG Gwasanaeth Ambiwlans Cymru (YGAC) wedi gofyn i chi gyflwyno gwybodaeth ynghylch eich achlysur gan ddefnyddio'r ddolen yma - [Event Medical Assurance] |

## Anifeiliaid mewn Achlysuron

Da Byw (Gwartheg, Defaid, Moch, Geifr a Cheirw) mewn Achlysuron

Heidiau o Adar mewn Achlysuron

Rhaid i chi gael caniatâd mewn ysgrifen gan y Cyngor cyn dod ag anifeiliaid ar y safle i'w harddangos neu at ddibenion perfformio neu adloniant. Efallai y byddwn ni'n gwahardd defnyddio anifeiliaid a allai beri perygl i'r cyhoedd. Mae'n bwysig nodi nad yw'r Cyngor yn caniatáu rhoi anifeiliaid yn wobr mewn achlysuron ar dir sy'n perthyn i'r Cyngor.

Rhaid i chi gyflwyno copi o bob trwydded a dogfen gofrestru, berthnasol, ar gyfer pob anifail gyda'r cynllun cais ar gyfer eich achlysur.

Chi sy'n gyfrifol am les yr anifeiliaid o dan Ddeddf Lles Anifeiliaid 2006. Mae hyn yn cynnwys cludo'r anifeiliaid, eu llety, bwyd a sut maen nhw'n cael eu harddangos i'r cyhoedd. At hynny, rhaid i drefnwyr achlysuron ofalu bod person cymwys yn bresennol drwy gydol yr achlysur at ddibenion monitro lles yr anifeiliaid.

Rhowch restr fanwl o bob anifail rydych chi'n bwriadu iddo ddod ar safle'r achlysur. Cofiwch gynnwys copïau o bob trwydded a dogfen gofrestru, berthnasol, ar gyfer pob anifail.

Mae reid ar gefn mul yn weithgaredd y mae gofyn cael trwydded ar ei chyfer.

## Yswiriant

| Oes gyda chi eisoes sicrwydd yswiriant atebolrwydd cyhoeddus? | Os oes, rhowch fanylion. | Os nag oes, nodwch y rheswm pam: |
|---|---|---|
| | | |

Mae gofyn i Drefnwyr Achlysuron fod â pholisi yswiriant cyfredol ar waith o ran atebolrwydd cyhoeddus neu risgiau trydydd parti (gan gynnwys atebolrwydd o ran cynnyrch pan fo hynny'n berthnasol). Bydd y terfyn diogelwch rhag colled (indemnity) yn swm sydd wedi'i gymeradwyo gan adran yswiriant a chyfraith y Cyngor. Er mwyn cynnal achlysur ar eiddo Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf, bydd gofyn i chi fod â dogfen yswiriant ddilys; tra bo lefel sicrwydd atebolrwydd cyhoeddus o £10 miliwn yn ddymunol, bydd lefel isaf un o £7.5 miliwn yn dderbyniol mewn sefyllfaoedd lle bydd modd cyflwyno esboniad rhesymegol ynghylch hyn. Bydd gofyn i drefnwyr achlysuron gyflwyno tystiolaeth o'u sicrwydd yswiriant ynghyd â rhai unrhyw arddangoswyr, bandiau/grwpiau dawns, isgontractwyr, arlwywyr ac ati y maen nhw wedi eu gwahodd i ymddangos yn yr achlysur / eu hawdurdodi i ymddangos yn yr achlysur.
(Nodwch fod hyn yn ychwanegol at unrhyw atebolrwydd cyflogeion y bydd ei angen arnoch chi)

| Staffio | |
|---|---|
| **Stiwardiaid:**<br>Prif gyfrifoldeb stiwardiaid yw rheoli torfeydd a dylech chi ddefnyddio'ch asesiad risg i bennu ar y nifer addas o stiwardiaid ar gyfer eich achlysur.<br>Yma, rhestrwch niferoedd y stiwardiaid a'u meysydd cyfrifoldeb. | |
| **Diogelwch / Yr Awdurdod Diogelwch Diwydiant (ADD).**<br>Ar sail eich asesiad risg a/neu ddisgwyliadau partïon eraill er enghraifft y sawl sy'n darparu trwyddedau neu'r heddlu, mae'n bosib y bydd gofyn cael staff proffesiynol sydd wedi'u cofrestru â'r (ADD).<br>Os caiff ei bennu bod gofyn rhoi hyn ar waith yn eich achlysur, cofiwch gynnwys manylion y darparwr diogelwch a'r hyn fydd yn cael ei ddarparu. | |

| | |
|---|---|
| **Staffio:**<br>Rhestrwch y staff/rolau allweddol y bydd gofyn eu cael i'ch helpu i gynnal eich achlysur. | |

| Arwyddion | |
|---|---|
| Ydych chi'n bwriadu defnyddio arwyddion fel baneri a phosteri ac ati? (Bydd gofyn cael cymeradwyaeth gan adran gorfodi gofal y strydoedd Rhondda Cynon Taf) | Ydyn ☐ Nac Ydyn ☐ |
| Rhaid i chi dynnu pob arwydd i lawr o fewn diwrnod i'r achlysur ddod i ben. **Nodwch** os bydd rhaid i'r Cyngor dynnu'r arwyddion i lawr, byddwch chi'n destun ffi tynnu arwyddion i lawr. | |
| Nodwch: Mae gosod arwyddion heb ganiatâd yn anghyfreithlon a gallech chi wynebu cael eich erlyn; rydych chi felly'n cael eich cynghori'n gryf i geisio cymeradwyaeth mewn ysgrifen gan wasanaeth gofal y strydoedd, Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf, ynghylch yr arwyddion rydych chi'n bwriadu eu codi, a'i chyflwyno i ni.<br>E-bost: GorfodiGofalyStrydoedd@rctcbc.gov.uk neu drwy'r post: Carfan gorfodi gofal y strydoedd Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf, Uned B23 Heol Ffynnon Taf, Ystâd Ddiwydiannol Trefforest, Trefforest, CF37 5TT | |

| STRWYTHURAU DROS DRO | |
|---|---|
| Ydych chi'n bwriadu defnyddio unrhyw un o blith y canlynol yn eich achlysur?<br><br>Os ydych chi, ticiwch bob bocs perthnasol gan ofalu bod y rhain yn cael eu cynnwys yn eich cynllun o'r safle. | ☐ Pabelli mawr / pabelli / pabelli gasebo<br>Ydyn ☐ Nac Ydyn ☐ Manylion:<br><br>☐ Generadur symudol<br>Ydyn ☐ Nac Ydyn ☐ Manylion:<br><br>☐ Llwyfan symudol<br>Ydyn ☐ Nac Ydyn ☐ Manylion:<br><br>☐ Rhwystr o amgylch y llwyfan<br>Ydyn ☐ Nac Ydyn ☐ Manylion:<br><br>☐ Rhwystr o amgylch y llwyfanTŵr cymysgu sain system sain P.A<br>Ydyn ☐ Nac Ydyn ☐ Manylion:<br><br>☐ Rig goleuo<br>Ydyn ☐ Nac Ydyn ☐ Manylion:<br><br>☐ Arall (nodwch ba rai isod) |
| **Gwybodaeth arall / ychwanegol:** | |
| **Nodiadau** | Cyflwynwch gymaint o wybodaeth â phosib ynghylch pob un o'r rhain yn eich asesiad risg / datganiadau dull.<br><br>Rhaid cael cymeradwyaeth gan y Cyngor cyn defnyddio generaduron ar y safle. |

| HYLENDID | |
|---|---|
| Os bydd toiledau Portaloo yn cael eu cludo i'r safle, nodwch sawl un fydd yno a pha fath fyddan nhw (gwrywaidd, benywaidd, anabl). | |
| Os bydd cyfleusterau sydd ar y safle eisoes yn cael eu defnyddio, pwy ar y safle sydd wedi awdurdodi hyn? | |

| GWASTRAFF | |
|---|---|
| Nodwch unrhyw ddulliau eraill rydych chi'n eu cynnig at ddibenion cydymffurfio â Rheoliadau Ailgylchu yn y Gweithle 2024, eich dulliau ar gyfer gwaredu ailgylchu a gwastraff a phwy fydd y darparwr o ran hyn. Sut rydych chi'n bwriadu gwahanu'r gwahanol fathau o ddeunyddiau ailgylchu a bwyd?<br><br>Nodwch y bydd gofyn cael Nodyn Trosglwyddo Gwastraff ar gyfer sgipiau. | |

| |
|---|
| Dylech gynnal asesiad risg ar gyfer unrhyw achlysur rydych chi'n ei gynnig, gan roi ystyriaeth i bob perygl, natur a hyd a lled y risgiau, a'r camau gweithredu angenrheidiol ar gyfer eu rheoli. Mewn achosion pan fydd risgiau sylweddol yn cael eu henwi yn yr asesiad risg, rhaid i chi rannu gwybodaeth ynghylch natur y risg â phawb y gallai hyn effeithio arnyn nhw, felly hefyd o ran y mesurau rheoli y mae gofyn eu rhoi ar waith.<br><br>Wedi i'r achlysur gael ei gadarnhau, rhaid i asesiad risg manwl gael ei gyflwyno. |
| **NODIADAU YCHWANEGOL**<br><br>Cofiwch gyflwyno unrhyw wybodaeth ychwanegol a fyddai, yn eich barn chi, o gymorth wrth i benderfyniad gael ei wneud ynghylch eich cynnig. |

Yn y llyfryn canllaw **The Public Accessible Locations** (formally, Crowded Places) sydd ar gael i'w lawrlwytho oddi ar wefan y Swyddfa Ddiogelwch Genedlaethol Gwrthderfysgaeth (SDdGG) mae arweiniad at ddibenion rhoi cyngor ynghylch diogelwch amddiffynnol i'r sawl sy'n gyfrifol am drefnu achlysuron mawr a diogelwch achlysuron, waeth be fo maint a niferoedd yr achlysuron dan sylw; dyw'r arweiniad ddim yn benodol ar gyfer unrhyw fath o achlysur. Mae wedi'i greu i'w ddefnyddio ar gyfer yr achlysuron hynny lle y gallai fod perygl o ymosodiad terfysgol naill oherwydd natur yr achlysur neu niferoedd neu natur y bobl sy'n ei drefnu neu a fydd yn ymweld ag e, ac mae sylw'n cael ei roi ynddo i'r rhan hanfodol y gallwch chi eich chwarae yn strategaeth gwrthderfysgaeth y DU.

https://www.gov.uk/government/publications/crowded-places-guidance

Yn ogystal â hynny, byddem ni'n cynghori pob aelod o staff sy'n rhan o'r achlysur, yn fwyaf arbennig stiwardiaid a staff diogelwch, i fod â gwybodaeth ddigonol ynghylch y cwrs e-Addysgu **ACT Awareness** gan y SDdGG sydd wedi cael ei ddatblygu. Yn rhan o'r e-ddysgu yma mae fideos sefyllfaoedd rhyngweithiol a thiwtorialau arweiniad, ynghyd â recordiadau gweledol a chlywedol; mae'r rhain at ddibenion creu profiad dysgu sy'n ennyn diddordeb – mae modiwlau ar brif feysydd fel sylwi ar feysydd agored i niwed o ran diogelwch, ymateb i ymddygiad amheus, ymdrin ag eitem amheus, sut mae mynd i'r afael â bygythiad o ran bom, ac ymateb i ymosodiad â drylliau neu arfau. 45 munud yn unig mae'n ei gymryd i gwblhau'r cwrs rhyngweithiol yma, sydd ar gael i gwmnïoedd neu unigolion preifat, a gall gael ei wneud mewn un tro neu mewn modiwlau byrion. Ynddo mae esboniad ynghylch sut i sylwi ar ymddygiad amheus a'r hyn y dylech chi ei wneud i'ch helpu'ch hun, eraill a'r ymatebwyr argyfwng, pe byddai ymosodiad yn digwydd. Er mwyn mewngofnodi ewch i https://ct.highfieldelearning.com/

**DATGANIAD: Rydw i wedi ymgyfarwyddo â'r Amodau Defnyddio sy'n berthnasol i Briffyrdd, Parciau a Mannau agored, ac fe fyddaf yn cadw at y rhain.** Rwy'n cadarnhau bod yr wybodaeth rydw i wedi'i chyflwyno yn yr hysbysiad yn gywir hyd eithaf fy ngwybodaeth a'r hyn rwy'n ei gredu sy'n wir. **Derbyniwch y llofnod yma yn gadarnhad mewn ysgrifen y bydd y Trefnydd yn talu am unrhyw ddifrod fydd yn cael ei achosi i'r safle yn sgil yr achlysur yma.**

Nodwch o ran tir y Cyngor: datganiad o ddiddordeb yn unig yw'r ffurflen yma a dyw hi ddim yn gadarnhad bod caniatâd wedi ei roi; gallai hyn ddigwydd e.e. drwy'r Adran parciau neu Lywodraethwyr Ysgol. Os yw'r ffurflen yma'n un ar gyfer hysbysu GYDA, a bod yr achlysur i gael ei gynnal ar dir nad yw'n dir y Cyngor, mae'n bwysig eich bod yn cael caniatâd perchennog y tir, er mwyn defnyddio'r tir ar gyfer eich achlysur. Yn ogystal â hynny, wrth ddefnyddio tir y Cyngor, mae'r Cyngor yn cadw'r hawl i fynnu bod cwmni rheoli achlysuron, proffesiynol, yn cael ei ddefnyddio, sy'n gallu dangos cofnod da o reoli achlysuron. Os yw hyn yn ofyniad, o beidio â'i gyflawni, gallai eich cais gael ei wrthod neu ei dynnu nôl.

Drwy lofnodi'r ffurflen yma, rydw i hefyd yn deall fy rhwymedigaethau a'm cyfrifoldebau o ran cynnwys y cais yma. Rydw i'n deall y gallai peidio â chydymffurfio â'r telerau ac amodau sydd ynghlwm olygu bod y Cyngor yn tynnu'r hawl i gynnal yr achlysur yn ei ôl. Yn ogystal, rydw i'n cytuno i roi gwybod i'r Cyngor ynghylch unrhyw newidiadau i'r wybodaeth sydd yn y cais yma.

Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i gadw eich gwybodaeth bersonol yn saff a diogel ac i roi gwybod i chi sut mae'n defnyddio'ch gwybodaeth. Bydd yr wybodaeth sydd yn y ffurflen yma yn cael ei defnyddio at ddibenion Grŵp Ymgynghori ar Achlysuron Rhondda Cynon Taf a/neu ar gyfer gofynion trefnu o ran cyfleusterau'r Cyngor. I gael gwybod rhagor ynghylch y modd rydyn ni'n defnyddio eich gwybodaeth, ewch i dudalennau Diogelu Data'r Cyngor www.rctcbc.gov.uk/diogeludata.

**Llofnod:**

**Dyddiad:**